PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 17 HYDREF 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Hinchey, Jenkins, Lent, Lister, Molik a/ac Walker |

60 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Weaver a'r Cynghorydd Davies.

61 : CADEIRYDD

Nodwyd i'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2017, benodi'r Cynghorydd Sarah Merry yn Gadeirydd.

62 : AELODAETH A CHYLCH GORCHWYL

Nodwyd i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2017 ail-gadarnhau'r Aelodaeth ganlynol:

Y Cynghorwyr Davies, Hinchey, Jenkins, Lent, Lister, Merry, Molik, Walker a Weaver.

Nodwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 25 Mai 2017, y cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl canlynol:

(a) Hyrwyddo gwelliannau gwirioneddol a pharhaus o ran cyfleoedd bywyd i Blant sy'n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen, Pobl Sy'n Gadael Gofal a phlant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol ac i weithio ar sail rhaglen flynyddol at y diben hwnnw;

(b) Llunio, monitro ac adolygu strategaeth rhianta corfforaethol, a sicrhau y caiff honno ei rhoi ar waith yn effeithiol drwy gynlluniau gwaith a rhaglenni hyfforddiant rhianta corfforaethol.

(c) Ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd bywyd Plant sy'n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy'n Gadael Gofal o ran iechyd, cyflawniad addysgol, a mynediad i hyfforddiant a chyflogaeth, i gynorthwyo â'r gwaith o bontio i fyd oedolion cadarn a chynhyrchiol;

(d) Argymell ffyrdd y gellir datblygu gwasanaethau mwy integredig ym mhob un o Gyfarwyddiaethau'r Cyngor, ysgolion a rhanddeiliaid eraill â'r nod o sicrhau canlyniadau gwell i Blant sy'n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy'n Gadael Gofal.

(e) Sicrhau bod trefniadau ar waith i alluogi Plant sy'n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy'n Gadael Gofal i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gynllunio a llunio gwasanaethau, a'u bod yn cael cyfle i ddweud ei barn a bod y farn honno'n cael ei dilyn.

(f) Sicrhau bod systemau monitro perfformiad ar waith, ac adolygu data perfformiad yn rheolaidd i sicrhau gwelliannau cyson o ran perfformiad mewn cysylltiad â chanlyniadau i Blant sy’n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy’n Gadael Gofal.

(g) Derbyn yr holl adroddiadau archwilio a blynyddol perthnasol y Gwasanaethau Plant, gan gynnwys:

Adroddiad Safonau Gofal Cartrefi Plant; Adolygiadau Ymarferion Achos, Adroddiad Blynyddol Safonau Gofal Maethu; Adroddiad Blynyddol Safonau Gofal Mabwysiadu a Maethu; Comisiynu 4C; Adroddiad Blynyddol y Tu Allan i’r Ardal; Adroddiad Blynyddol Dyfodol Disgleiriach (gydag addysg); adroddiadau Cwynion gan Blant; a’r Adroddiad Blynyddol ar Eiriolaeth;

(h) Adrodd i’r Cabinet o leiaf ddwywaith y flwyddyn,

(i) Gwneud argymhellion i’r Cabinet pan fo’r cyfrifoldeb am y swyddogaeth honno yn nwylo'r Cabinet;

(j) Adrodd i’r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn ôl yr angen;

(k) Argymell penodi aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor i'w cymeradwyo gan y Cyngor;

(l) Llunio a chyflawni rhaglen o ddigwyddiadau ymgynghori, gwrando ac ymgysylltu gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal a Phobl sy'n Gadael Gofal, yn ogystal ag ymweliadau i wasanaethau sy’n cynnig cyngor a chymorth i Blant sy’n Derbyn Gofal, Plant mewn Angen a Phobl sy’n Gadael Gofal;

(m) Cyflwyno Adroddiad Blynyddol ar waith y Pwyllgor i’r Cyngor Llawn.

(n) Bydd gofyn i bob Aelod o’r Pwyllgor ddilyn hyfforddiant perthnasol i’w galluogi nhw i gyflawni eu dyletswyddau’n iawn.

## 63 : ENWEBU AC ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD

Nodi i’r Pwyllgor ethol y Cynghorydd Lent yn Ddirprwy Gadeirydd.

## 64 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 65 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 66 : ARCHWILIAD AGGCC SEIBIANT BYR CAERDYDD YN NHŶ STORRIE

Croesawodd y Cadeirydd Bridgette Gater (Cyfarwyddwr, Gweithredu Dros Blant) i’r cyfarfod ac i gyflwyno'r adroddiad. Rhoddwyd cyflwyniad i’r Aelodau yn ogystal â

chopi o adroddiad archwiliad pellach dyddiedig 17 Hydref 2017 a dywedwyd wrthynt fod yr hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth bellach wedi'i ddiddymu.

Gwahoddwyd aelodau i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi fel a ganlyn:

- Dywedodd Bridgette Cater mai hi oedd Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gweithredu Dros Blant ac amlinellodd ei rôl; Mae perfformiad bellach yn cael ei reoli ar sail unigol; a cynhaliwyd ymchwiliadau mewnol ar ôl cyhoeddi adroddiad mis Mehefin, nid yw rhai o'r ymchwiliadau hynny wedi'u cynnal.

- Mae'r Cynllun Gwella yn amlinellu'r newidiadau wedi'u gwneud yn yr amrywiol feysydd i gynnwys arwain a rheoli.
  Mae staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac mae morâl yn gwella.

- Dechreuodd gwaith i fynd i'r afael â materion staffio cyn mis Hydref 2016, ond, bu digwyddiad a waethygodd y sefyllfa.

- Mae achlysuron wedi bod pan nad yw staff asiantaeth wedi dod i'r gwaith a phan fo tripiau wedi'u canslo weithiau o ganlyniad i ddulliau rheoli gwahanol neu'r hyn a ystyrir yn geisiadau rhesymol .
  Er bod rhywfaint o effaith ar y plant wedi bod, ni dderbynnir ef ac ni welir yr oedd plant erioed mewn sefyllfa beryglus o ganlyniad i ddiffyg staff.

- Mae'r defnydd o staff asiantaeth wedi'i leihau ac mae'r staff asiantaeth hynny wedi dod yn fwy cyfarwydd ag anghenion y plant yn y cartref.

PENDERFYNWYD: Nodi'r wybodaeth sydd yn yr adroddiadau, ac yn enwedig bod yr hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth wedi'i ddiddymu.

67 : CRONFA DYDD GŴYL DEWI – DYFARNU CYLLID

Croesawodd y Cadeirydd Debbie Martin-Jones (Rheolwr Gweithredol, Gwasanaethau Arbenigol) i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiad. Diben y cyllid yw cefnogi pobl ifanc sydd yn, neu sydd wedi derbyn gofal gan yr awdurdod lleol i fanteisio ar gyfleoedd a fydd yn eu harwain at fywydau annibynnol a llwyddiannus.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r aelodau am sut mae'r cronfeydd yn cael eu defnyddio a dywedwyd wrthynt y ymgynghorwyd â'r bobl ifanc ac yn cytuno â'r cynlluniau amrywiol ar gyfer y cyllid.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Dywedwyd wrth yr aelodau y deallir, wedi cael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru, y bydd cyllid yn parhau, a bod y swm a ddarperir yn cynyddu.

- Mewn perthynas â'r amrywiol enghreifftiau o sut y gellid defnyddio'r arian. Dywedwyd wrth yr Aelodau, o ran rhai ceisiadau am gyllid, y bydd angen

gwneud penderfyniadau ar sail achosion unigol a bod y rhai hynny sy'n gwneud y cais - Gweithwyr Cymdeithasol ac Ymgynghorwyr Personol a fydd yn ymwneud ag anghenion y bobl ifanc dan sylw.

O ran unrhyw gais am deithio tramor, ni fyddai'r gyllid am wyliau, byddai'n ehangu profiad gwaith neu fywyd person ifanc er enghraifft gwirfoddoli tramor.

O ran ffonau symudol, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn llwyddo i fforddio prynu ffon symudol a thalu bil ffon symudol ar ôl hynny, ond, mae achlysuron pan nad yw'n bosibl a byddai ffon symudol yn helpu i fynd i'r afael â materion diogelu y mae person ifanc yn eu hwynebu.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau, cyn hysbysebu argaeledd cyllid, ei bod yn bwysig sicrhau y daethpwyd i gytundeb rhwng yr holl bartïon.
  Rhoddir gwybod i bawb sy'n ymwneud â hyn ac fe'u gwnânt yn ymwybodol o'r cyllid a sut mae cael gaffael ar y cyllid dan sylw.

PENDERFYNWYD: Derbyn a chefnogi'r cynlluniau wedi'u cynnig gan y tîm rheoli sydd wedi'u creu ar gyfer y Grant.

68 : EITEM ADDYSG

Croesawodd y Cadeirydd Gillian James (Arweinydd Cyflawniadau, Cau'r Bwlch) i'r cyfarfod.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau am y ffigurau wedi'u creu ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal - Cyfnod Allweddol 2 a 4 ar gyfer 2017. Mae'r ffigurau wedi'u rhoi yn dangos pa mor dda mae Caerdydd yn ei wneud. Dywedwyd wrth yr Aelodau, er bod 81.1% o ddisgyblion CA4 ag AAA – mae gan 56% ohonynt ddatganiad ar hyn o bryd. Cânt gymorth ychwanegol a cheir cronfeydd wedi'u dirprwyo ar gyfer y rhai hynny sydd ag AAA. Cynhelir cyfarfodydd dynodedig i athrawon i sicrhau bod pawb yn helpu i wella cynnydd y plant sy'n derbyn gofal.

Nododd yr Aelodau fod PYADD yn dod yn llai manwl o ran anghenion ychwanegol yn enwedig gan fod rhai o'r buddion wedi'u dileu a byddent yn croesawu'r cyfle i ystyried y data craidd o feysydd eraill mewn cyfarfod yn y dyfodol.

69 : ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT

Croesawodd y Cadeirydd Irfan Alam (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol drafft.

PENDERFYNWYD: I gymeradwyo'r adroddiad drafft i'w gyflwyno i'r Cyngor.

70 : EITEM CORFFORAETHOL I'W THRAFOD – TROSOLWG/RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR RHIANTA YMGYNGHOROL

Trafododd/ystyriodd yr Aelodau Rhaglen Waith a Throsolwg y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

- Cytuno ar amserlen dros dro adroddiadau
- Cytuno ar y strwythur arfaethedig ar gyfer y rhaglen waith / themâu arfaethedig
- Cytuno ar bwy sy'n arwain ar bob thema
- Cynllunio amserlen o ymweliadau i fodloni anghenion gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg

71 : ARCHWILIAD AGGCC CROSSLANDS

Adroddiad Gwybodaeth

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.

72 : ADRODDIADAU RHEOLIAD 32

Adroddiad Gwybodaeth

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.

73 : GWASANAETH MAETHU, ADRODDIAD SICRWYDD ANSAWDD BLYNYDDOL

Adroddiad Gwybodaeth

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.

74 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD: CHWARTER 4 A'R ALLDRO BLYNYDDOL

Adroddiad Gwybodaeth

PENDERFYNWYD: Nodi cynnwys yr adroddiad.

75 : ADRODDIAD AR GWYNION: CHWARTER 4 A'R ALLDRO BLYNYDDOL

Adroddiad Gwybodaeth

Mynegodd yr Aelodau bryderon nad oes gwelliant wedi bod yn yr ymateb gan Weithwyr Cymdeithasol i geisiadau am alwadau. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod problemau wedi bod gyda'r ffonau symudol wedi'u darparu ac nad ydynt yn addas i'r diben; mae bywyd y batris yn wael. Er bod ffonau ychwanegol wedi'u rhoi mae trafferthion wedi bod gyda'r WiFi.

Mae'r Aelodau yn gofyn am ddiweddariad ar y problemau'n ymwneud â ffonau yn barod ar gyfer y cyfarfod nesaf.

76 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol, ddydd Mawrth, 16 Ionawr am 2.00pm.